# Cymysgu sain a recordiwyd

## Trosolwg

Mae'r Safon hon yn ymwneud â chymysgu sain wrth ôl-gynhyrchu, a chyfeirir at hyn hefyd fel "cymysgu ail-recordio" neu "dybio".

Mae'n golygu asesu, dethol, cydbwyso a thrin sain sydd wedi'i threfnu ar draciau, i gyflawni lefel, ansawdd tonyddol, delwedd sain ac eglurder gofynnol.

Dylai'r Safon hon fod yn berthnasol i unrhyw un sy'n gysylltiedig â chymysgu sain sydd wedi'i recordio wrth ôl-gynhyrchu.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cynnal asesiad cywir o bob un o nodweddion traciau sain
2. addasu traciau sain unigol fel bod modd eu deall, a bod y sain ofynnol wedi'i gosod a'i delweddu yn y dull a ddymunir
3. gosod a chydbwyso sain i gyflawni effeithiau creadigol ac esthetig dymunol yn unol â gweledigaeth y cyfarwyddwr neu rywun arall sy'n gwneud penderfyniadau
4. cyflawni trawsgyweiriadau priodol rhwng sain a cherddoriaeth
5. rheoli lefelau signalau cyfansawdd o fewn terfynau technegol ac o fewn yr ystod ddeinamig ddymunol
6. trin traciau sain i gyflawni lefel, cydbwysedd, ansawdd tonyddol, persbectif ac ystod ddeinamig briodol
7. creu cymysgeddau sain o fewn cyfyngiadau amser, cyllideb a chyfyngiadau cynhyrchu eraill
8. gwneud penderfyniadau critigol am ansawdd sain a rheoli hynny yn erbyn safonau artistig a thechnegol cytunedig
9. creu cymysgeddau sy'n briodol i'r cyd-destun y cânt eu clywed ynddo
10. creu cymysgeddau sain sy'n cyflwyno nodweddion seiniau unigol a sain atmosfferig yn unol â briffiau* *
11. sicrhau bod ffeiliau sain yn cydymffurfio â therfynau cyfreithiol a safonau ar gyfer dosbarthu a darparu
12. defnyddio gwybodaeth o ffynonellau dibynadwy i nodi a chywiro unrhyw broblemau wrth greu cymysgeddau
13. dehongli awgrymiadau a cheisiadau gan y bobl sy'n gwneud penderfyniadau yn unol â gweithdrefnau'r cwmni
14. awgrymu opsiynau i bobl sy'n gwneud penderfyniadau sy'n ateb ceisiadau artistig a gofynion gweithredol cynyrchiadau fel ei gilydd
15. trefnu cydrannau cymysgeddau mewn ffyrdd addas fel y gellir eu defnyddio'n ddiweddarach
16. gwirio bod gwaith papur yn gywir, yn ddarllenadwy ac yn cydymffurfio â chonfensiynau sy'n ddealladwy i gymysgwyr, technegwyr sain neu stiwdios eraill
17. esbonio materion technegol mewn ffyrdd sy'n galluogi pobl nad ydynt yn bobl dechnegol i ddeall eu harwyddocâd
18. cynnal diogelwch ar gyfer ffeiliau a deunyddiau eraill yn unol â gofynion y cwmni

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. gofynion cynhyrchu, egwyddorion technegol ac ariannol
2. egwyddorion golygu sain a sut i olygu sain gan ddefnyddio rhaglenni meddalwedd poblogaidd
3. gofynion ar gyfer ystod ddeinamig
4. meini prawf ar gyfer gwerthuso cymysgeddau sain wrth iddynt gael eu creu
5. ym mha gyd-destun y caiff y cymysgeddau eu chwarae, a sut i gymryd hyn i ystyriaeth wrth eu creu
6. y gwahanol fathau o drin a hafalu sain, a sut i'w cyflawni
7. nodweddion ansawdd tonyddol a phersbectif, a sut i'w cyflawni
8. egwyddorion acwstig perthnasol a sut i'w rhoi ar waith
9. nodweddion, defnyddiau a gofynion fformatau mono, stereo a sain amgylchynol, a sut i'w cyflawni
10. rhinweddau a nodweddion gweithredol offer cymysgu, offer ategol ac offer amgodio
11. terfynau cyfreithiol a safonau ar gyfer ffeiliau sain i'w dosbarthu a'u darparu yn arbennig mewn perthynas ag uchder sain, sain drochol a metadata a sut i weithio'n greadigol o fewn iddynt
12. pwysigrwydd gallu clywed deialog yn enwedig mewn perthynas â'r nam posibl ar glyw poblogaeth sy'n heneiddio
13. strategaethau effeithiol i wella'r gallu i glywed deialog
14. sut i adnabod diffygion mewn systemau monitro
15. gofynion creadigol ac esthetig y cyfarwyddwr (neu'r person arall sy'n gwneud penderfyniadau)
16. sut i drafod ac ymateb i ofynion creadigol a thechnegol y person sy'n gwneud penderfyniadau
17. sut i ddehongli ceisiadau ac awgrymiadau o ran *genre* penodol neu arddull cymysgeddau sain
18. egwyddorion "adrodd stori" fel y maent yn berthnasol i bob ffurf a *genre*
19. confensiynau gwahanol *genres* ac arddulliau gwneud ffilmiau a rhaglenni
20. egwyddorion ac arddulliau cerddoriaeth a gwahanol *ensembles* gan gynnwys cerddorfa, pedwarawd llinynnol, grŵp roc, pedwarawd jazz ac unawdwr
21. sut i esbonio materion technegol yn glir i bobl nad ydynt yn bobl dechnegol
22. systemau'r cwmni ar gyfer storio, arbed copïau wrth gefn a diogelwch

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | ScreenSkills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2020 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Creative Skillset |
| **RCU gwreiddiol** | SKSPP24 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gweithwyr proffesiynol ôl-gynhyrchu |
| **Cyfres/Set** | Ôl-gynhyrchu |
| **Geiriau Allweddol** | Ôl-gynhyrchu, Cynhyrchu, Ffilm, Theledu, Sain, Cymysgeddau, Dybio |